***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 817 (Cy.102)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Diddymu) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *19 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2003* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 126(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) ac adran 5(1), a pharagraff 29(1) yn Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(**2**), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau'n ei hystyried hi'n briodol er budd y gwasanaeth iechyd i wneud y Gorchymyn hwn(**4**)), ac ar ôl cyfnod ymgynghori a ragnodwyd o dan baragraff 29(3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon(**5**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Teitl a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Diddymu) 2003.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2003.

### Diddymu Ymddiriedolaeth GIG

**2.** Diddymir drwy hyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Sefydlu) 1992(**6**), ac yn unol â hynny dirymir drwy hyn y Gorchymyn hwnnw.

(**1**) 1977 p.49; diwygiwyd adran 126(3) gan adran 65(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990" ) a chan adran 2(1) o Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("Deddf 1995 ") a pharagraff 57 yn Atodlen 1 iddi.

(**2**) 1990 p.19; diwygiwyd adran 5(1) gan adran 65(2), adran 13(1)(a) a (10) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ac Atodlen 5 iddi, ac adran 2(1) o Ddeddf 1995 a pharagraff 69(b) yn Atodlen 1 iddi.

(**3**) Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.

(**4**) *Gweler* paragraff 29(2)(b) yn Atodlen 2 i Ddeddf 1990.

(**5**) 1990 (p.19).

(**6**) O.S. 1992/2741.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

*D.Elis-Thomas*

19 Mawrth 2003

Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer diddymu ar 1 Ebrill 2003 Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys a sefydlwyd ar 16 Tachwedd 1992.